

Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian

Mae Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian (CARE) yn gymdeithas budd cymunedol wedi'i lleoli yng Nghrymmych, Sir Benfro. Ein gweledigaeth yw gweld 'cymunedau ffyniannus, wedi'u cysylltu â natur a'i gilydd, yn mwynhau amgylcheddau sy'n llawn bywyd'.

Dechreuom fel grŵp o wirfoddolwyr yn rhannu diddordeb cyffredin mewn amddiffyn yr amgylchedd naturiol, cefnogi'r economi wledig leol i atal neu leddfu tlodi, a buddsoddi'r manteision o'n gweithgareddau yn lleol.

Rydym yn chwilio am gymorth achlysurol i hyrwyddo ein Gwasanaethau Ynni i'r cyhoedd.

Disgrifiad Swydd

Mae tymor yr haf bob amser yn un prysur i'n tîm Ynni, wrth iddynt ymweld â sioeau a digwyddiadau ledled Gorllewin Cymru i siarad â phobl am y gwasanaethau ynni a gynigiwn i ddeiliaid tai; o gyngor effeithlonrwydd ynni cyffredinol, i asesiadau ôl-osod pwrpasol llawn.

Rydym yn chwilio am gynorthwyr i fynychu digwyddiadau drwy gydol yr haf (tan ddiwedd Awst 2025) i siarad â phobl am y gwasanaethau hyn, a rhoi help llaw i ddeiliaid tai sydd angen cymorth i wneud eu cartrefi'n fwy clyd, gostwng eu biliau a lleihau eu hól troed carbon. Gallai hyn fod yn ddigwyddiadau mwy fel sioeau sirol i weithgareddau llai fel boreau coffi.

Mae gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni domestig neu barodrwydd brwd i ddysgu yn hanfodol i'r rôl hon - darperir hyfforddiant ac adnoddau. Bydd y rôl hon yn addas i chi os ydych chi'n frwdfrydig, yn hawdd mynd ato ac yn gyfathrebwr rhagorol, ac yn ddelfrydol yn siaradwr neu'n ddysgwr Cymraeg.

Er bod y swydd wag achlysurol hon ar hyn o bryd tan ddiwedd Awst 2025, efallai y bydd y person cywir yn dod o hyd i swydd fwy parhaol neu waith parhaus gyda Chwm Arian.

Telerau swydd

- **Oriau** = hyd at 2 ddiwrnod/wythnos (15 awr), gyda rhywfaint o waith penwythnos a gyda'r nos yn ofynnol.
- **Cyflog** = £18.57 yr awr (Nodyn: mae CARE ar hyn o bryd yn gweithredu strwythur cyflog fflat)
- **Tymor y contract** = yn dechrau ar unwaith, mewn capasiti hunangyflogedig/llawrydd, gyda gwaith ar gael tan ddiwedd Awst 2025
- **Treuliau** = ar gyfer milltiroedd, mynediad i ddigwyddiadau, adnoddau ac ati. Mae

defnyddio cerbyd cwmni ar brydles yn bosibl weithiau.

- **Caledwedd/meddalwedd** = Gall CARE gyflenwi offer TG os oes angen a bydd yn cefnogi gydag anghenion meddalwedd lle bo angen.
- **Lleoliad gwaith** = mae parodrwydd i wneud rhywfaint o waith o swyddfeydd rhent yng Nghrymmych yn ddelfrydol, er mwyn sicrhau cyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd â chydweithwyr, a rhaid i chi hefyd allu gweithio o bell gan fod gofyniad sylweddol i deithio i gyflawni'r gwaith.

Sut i wneud cais

Anfonwch e-bost at holly@cwmarian.org.uk (gan gynnwys rhif ffôn cyswllt) i fynegi diddordeb neu drafod y rôl yn fanylach erbyn **10yb ar ddydd Llun 23ain Mehefin 2025**